

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 3)

Y BIL IECHYD A GOFAL

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at bwrpas sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Iechyd a Gofal (y "Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 6 Gorffennaf 2021. Mae'r Bil wedi cwblhau ei daith drwy Dŷ'r Cyffredin. Dechreuwyd ystyried y Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 24 Tachwedd, a dechreuodd cam Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar 11 Ionawr 2022. Mae'r Bil fel y'i cyflwynwyd i'r Arglwyddi i'w weld yma:
<https://bills.parliament.uk/publications/44008/documents/1051>
3. Ar 24 Ionawr, cyflwynodd Llywodraeth y DU gyfres o welliannau mewn perthynas â Throsoglwyddo Swyddogaethau Cyrff Hyd Braich, Hymenoplasti ac Adrodd Gorfodol, fel y nodir isod. Mae'r gwelliannau hynny'n gwneud darpariaeth sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Amcan(ion) Polisi

4. Mae Llywodraeth y DU wedi datgan mai ei hamcan yw gweithredu polisiâu a amlinellir yn argymhellion y GIG mewn perthynas â diwygio deddfwriaethol, gan ddilyn Cynllun Hirdymor y GIG, a'r Papur Gwyn ar Integreiddio ac Arloesi: cydweithio i wella iechyd a gofal cymdeithasol i bawb. Dywed Llywodraeth y DU fod y Bil yn adeiladu ar gynigion y GIG ei hun ar gyfer diwygio, gyda'r nod o'i wneud yn llai biwrocraidd, yn fwy atebol, ac yn fwy integredig, gan ymgorffori gwersi a ddysgwyd o'r pandemig.

Crynodeb o'r Bil

5. Noddir y Bil gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
6. Mae darpariaethau allweddol y Bil yn ymdrin â nifer o feysydd, a nodir yn fyr isod.
 - a) Mynd i'r afael â phryderon a godwyd gan GIG Lloegr, megis sefydlu'r Systemau Gofal Integredig (ICSs) presennol ar sail statudol, uno NHS England a NHS Improvement yn ffurfiol, a gwneud newidiadau i reolau caffael a chystadleuaeth sy'n gysylltiedig â gwasanaethau iechyd. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys cynigion i roi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyfarwyddo NHS England a

phenderfynu sut y mae rhai gwasanaethau iechyd eraill yn cael eu trefnu. Mae'n rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol drosglwyddo swyddogaethau rhwng rhai o'r 'Cyrff Hyd Braich' sy'n arwain, yn cefnogi ac yn rheoleiddio gwasanaethau gofal iechyd yn Lloegr aphwerau i ddirprwyo swyddogaethau eraill yr Ysgrifennydd Gwladol i'r cyrff hynny mewn perthynas â'r gwasanaeth iechyd yn Lloegr, a hefyd i ymyrryd mewn newidiadau arfaethedig i'r ffordd y caiff gwasanaethau iechyd eu darparu.

- b) Nid yw'r Bil yn ymdrin â diwygiadau ehangach i'r systemau gofal cymdeithasol ac iechyd y cyhoedd, er ei fod yn darparu ar gyfer rhai newidiadau yn y meysydd hynny; bwriedir i Systemau Gofal Integredig wella'r cydgyssylltu rhwng y GIG a gwasanaethau'r awdurdodau lleol. O ran gofal cymdeithasol, mae'r Bil yn darparu i'r Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) asesu sut mae awdurdodau lleol yn Lloegr yn cyflawni eu swyddogaethau gofal cymdeithasol i oedolion, a'i nod yw gwella'r broses o rannu data. Mae mesurau hefyd i symleiddio'r ffordd y mae pobl ag anghenion gofal parhaus yn cael eu rhyddhau o ysbytai.
- c) Mae mesurau iechyd y cyhoedd yn y Bil yn ymwneud â hysbysebu bwyd, gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr a fflworideiddio dŵr.
- d) Mae'r Bil hefyd yn mynd i'r afael ag ymchwiliadau diogelwch ac yn sefydlu Corff Ymchwiliadau Diogelwch y Gwasanaethau Iechyd yn gorff statudol, ac yn gwneud newidiadau i'r system archwilwyr meddygol.
- e) Ymhlith y materion eraill yr ymdrinnir â nhw yn y Bil y mae rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol, casglu a rhannu data (gan gynnwys mesurau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cofrestrfa meddyginiaethau newydd), gofal iechyd rhyngwladol, safonau bwyd mewn ysbytai a, thrwy gyflwyno gwelliannau, gwneud profion gwryfyddod yn drosedd.

Y diweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi'r ail Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

- 7. Gosodais ail Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ("Memorandwm Rhif. 2") ar 17 Rhagfyr 2021, ar ôl i Lywodraeth y DU gyflwyno 54 o welliannau ar 18 Tachwedd. Roedd 24 ohonynt yn gwneud darpariaeth sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Ar 23 Tachwedd, cytunwyd ar 24 o welliannau Llywodraeth y DU yn ystod y cam adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin ac maent bellach yn rhan o'r Bil fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Arglwyddi.
- 8. Roedd Memorandwm rhif 2 yn amlinellu'r meysydd y cafwyd cytundeb yn eu cylch rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar ôl i welliannau a negodwyd, ac y cytunwyd arnynt gan Dŷ'r Cyffredin, gael eu cyflwyno i'r Bil.
- 9. Roedd hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am feysydd lle'r oeddem yn dal i anghytuno â Llywodraeth y DU, sef Cymalau 88-94: Trosglwyddo

Swyddogaethau Cyrff Hyd Braich a Chymalau 149, 144 a 91: Diwygiadau Canlyniadol i Ddeddfwriaeth y Senedd.

10. Ers i Femorandwm Rhif 2 gael ei gyhoeddi, rydym wedi sicrhau gwelliannau gan Lywodraeth y DU sy'n mynd i'r afael â'r materion yng Nghymalau 88-94: Trosglwyddo Swyddogaethau Cyrff Hyd Braich a oedd yn dal yn peri pryder inni, ac wedi cytuno â Llywodraeth y DU ar safbwynt ynglŷn â Chymalau 149, 144 a 91: Diwygiadau Canlyniadol i Ddeddfwriaeth y Senedd.
11. Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno gwelliannau hefyd, gan gynnwys cymalau newydd i'r Bil mewn meysydd eraill ac, ar ôl inni wneud cais i'r perwyl hwnnw, mae wedi estyn y darpariaethau newydd i Gymru. Y meysydd dan sylw yw Gwneud Hymenoplasti'n Drosedd ac Adrodd Gorfodol. Fe'u hamlinellir ym mharagraffau 38-50 isod.
12. Cyflwynwyd y gwelliannau hyn yng Ngham Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar 24 Ionawr 2022.
13. Bydd y Senedd am nodi:

Memoranda Cyd-ddealltwriaeth sy'n sail i Gymalau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol Ymgynghori â Gweinidogion Cymru

14. Mae tri maes yn y Bil lle mae'n ofynnol ar hyn o bryd i Lywodraeth y DU ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud Rheoliadau. :
 - Cymal 87: Systemau Gwybodaeth Meddyginiaethau
 - Cymalau 88-94: Trosglwyddo Swyddogaethau Cyrff Hyd Braich
 - Cymal 136: Trefniadau gofal iechyd rhyngwladol
15. Nid yw Llywodraeth y DU wedi drafftio'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar Systemau Gwybodaeth Meddyginiaethau eto. Rydym wedi dweud wrth Lywodraeth y DU fod angen datblygu'r Memorandwm hwnnw cyn gynted â phosibl gyda golwg ar sicrhau ei fod yn ei le cyn i'r darpariaethau ddod i rym.
16. Ni fydd angen y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar Gyrrff Hyd Braich mwyach os derbynnir y gwelliant¹ a gyflwynwyd, ac a nodir isod ym mharagraffau 20 i 23.
17. Rydym wedi mynd cryn dipyn o'r ffordd tuag at gytuno ar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar Gytundebau Gofal Iechyd Rhyngwladol, a'n bwriad yw darparu drafft terfynol i Bwyllgorau'r Senedd er mwyn iddynt gael ei ystyried pan fyddant yn ystyried y memoranda cydsyniad deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r Bil.

Newidiadau i'r Bil ers cyhoeddi'r ail Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

¹ Gwelliant 231C*

18. Cyflwynwyd y cymalau a'r gwelliannau newydd a ganlyn, sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru ac sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, gan Lywodraeth y DU yn ystod cam Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar 24 Ionawr.

Cymalau 88-94 (Cymalau 86-92 gynt): Trosglwyddo Swyddogaethau Cyrff Hyd Braich

19. Roedd tri mater yn y cymalau hyn fel y'u cyflwynwyd yn peri pryder i Lywodraeth Cymru:

20. Yn gyntaf, y ddarpariaeth sy'n caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol, heb gael cydsyniad Gweinidogion Cymru, wneud rheoliadau a fyddai'n trosglwyddo swyddogaethau rhwng cyrff perthnasol neu'n darparu ar gyfer arfer swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol gan gorff perthnasol, sy'n gwneud darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu a fyddai'n addasu swyddogaethau sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru.

21. Y cyrff y gallai darpariaethau'r Bil effeithio arnynt yn hyn o beth yw'r Awdurdod Ymchwil Iechyd, yr Awdurdod Meinweoedd Dynol a'r rhannau o GIG Digidol sy'n ymwneud â Systemau Gwybodaeth Feddygol/Systemau Gwybodaeth Dyfeisiau Meddygol (MDIS) ac sydd o fewn cymhwysedd datganoledig.

22. I ddatrys hyn, mae Llywodraeth y DU bellach wedi cyflwyno gwelliant² sy'n darparu ar gyfer gofyniad statudol i gael cydsyniad, lle mae angen cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau o dan gymalau 89 (Pŵer i drosglwyddo swyddogaethau rhwng cyrff) neu 90 (Pŵer i ddarparu ar gyfer arfer swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol) pan fo'r rheoliadau hynny'n cynnwys darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd pe bai wedi'i chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru (ac nad yw ond yn gysylltiedig â darpariaeth, neu'n ganlyniad i ddarpariaeth, a fyddai y tu allan i'r cymhwysedd deddfwriaethol hwnnw) neu sy'n addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru (h.y. yn addasu eu cymhwysedd gweithredol).

23. Gan fod y gwelliant, os caiff ei basio, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau perthnasol o dan adran 89 neu 90 yn hytrach nag ymgynghori (fel sydd ar wyneb y Bil), ni fydd angen Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth bellach ar gyfer y broses ymgynghori.

24. Yr ail fater a oedd yn destun pryder oedd y ddarpariaeth yng Nghymal 92 i roi'r gallu i'r Ysgrifennydd Gwladol drosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau eraill oddi wrth Gyrrff Hyd Braich i Weinidogion Cymru, Ymddiriedolaethau GIG Cymru ac Awdurdodau Iechyd Arbennig ar gyfer Cymru'n unig.

² Gwelliant 231C*

25. Er mwyn datrys hyn, mae Llywodraeth y DU bellach wedi cyflwyno gwelliannau³ sy'n dileu Gweinidogion Cymru, Ymddiriedolaethau GIG Cymru ac Awdurdodau Iechyd Arbennig Cymru o'r rhestr o "bersonau priodol" yn y cymal, gan fynd i'r afael yn llawn â phryderon Llywodraeth Cymru.
26. Yn drydydd, Cymal 91, sy'n rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth, drwy gyfrwng rheoliadau, sy'n ganlyniadol i gymalau 88 neu 90 o'r Bil hwn. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth sy'n diwygio, yn diddymu, yn dirymu neu'n addasu fel arall ddarpariaeth a wneir gan neu o dan Ddeddf neu Fesur gan y Senedd.
27. Mae Llywodraeth y DU wedi mynd i'r afael â hyn bellach fel y nodir ym mharagraffau 29 i 37 isod.
28. Gan fod Llywodraeth y DU bellach wedi mynd i'r afael â'n pryderon ynglŷn â Chymalau 88 i 94, rwyf bellach yn fodlon i'r cymalau hyn gael eu cynnwys yn y Bil.

Cymalau 149, 144 a 91 (cymalau 89, 125 a 130 gynt): Diwygiadau Canlyniadol i Ddeddfwriaeth y Senedd

29. Fel y nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf a osodais ar 1 Medi 2021, mae'r cymalau hyn yn rhoi'r pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth, drwy gyfrwng rheoliadau, sy'n ganlyniadol i'r Bil. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth sy'n diwygio, yn diddymu, yn dirymu neu'n addasu fel arall unrhyw ddarpariaeth a wneir gan neu o dan Ddeddf neu Fesur gan y Senedd.
30. Rwyf i a'm swyddogion wedi cyfarfod sawl gwaith ag Edward Argar AS, y Gweinidog Gwladol dros Iechyd, a'i swyddogion i drafod y darpariaethau hyn. Mae Llywodraeth y DU o'r farn mai cymalau safonol yw'r rhain a'n bod ni, yn yr un modd, yn cymryd pwerau yn Neddfau'r Senedd i wneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth Llywodraeth y DU.
31. Mae swyddogion Llywodraeth y DU wedi rhoi enghreifftiau o sut y gellid defnyddio'r pwerau hyn – mae'n debygol mai mân ddiwygiadau fyddai o dan sylw, er enghraifft, newid enw sefydliad yn Lloegr y cyfeirir ato yn neddfwriaeth y Senedd pan fo swyddogaethau wedi'u trosglwyddo – ac o ran Cymalau 91 a 149, sef y prif ddarpariaeth sy'n peri pryder yn hyn o beth, mae'r Gweinidog Argar hefyd wedi ymrwymo'n ysgrifenedig i wneud datganiad gerbron y Blwch Dogfennau ar sut y gellid defnyddio'r pwerau hyn.
32. Mae cymal 144 yn cyfeirio at Atodlen 17 sy'n diwygio Deddf Cyfathrebu 2003 er mwyn cyfyngu ar hysbysebu rhai cynhyrchion bwyd a diod mewn perthynas â'r DU. Ymdrinnir â'r Cymal a'r Atodlen yn y Memorandwm

³ Gwelliant 227A*; Gwelliant 231A*; Gwelliant 231B*

Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf ar y Bil. Er bod darpariaethau yn y cymal hwn hefyd sy'n galluogi newid canlyniadol i ddeddfwriaeth y Senedd, nid yw Llywodraeth y DU wedi nodi bod y cymal hwn yn un y mae gofyn cael cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar ei gyfer ac ni fydd, felly, yn ei gynnwys yng ngeiriad y datganiad gerbron y Blwch Dogfennau.

33. Fodd bynnag, ar sail y sicrwydd a roddwyd gan Lywodraeth y DU am y defnydd posibl o'r pwerau, rydym yn derbyn bod y diwygiadau canlyniadol a allai godi o Gymal 144 yn fân risg gyfansoddiadol sy'n dderbyniol.
34. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno â Llywodraeth y DU ar eiriad y datganiad a fydd yn cael ei wneud gerbron y Blwch Dogfennau.
35. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i wneud y datganiad cyn y ddatl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Senedd.
36. Ar y sail bod y datganiad yn cael ei wneud, ac yng ngoleuni'r holl sicrwydd a roddwyd gan Lywodraeth y DU, rwyf o'r farn bod y risg sy'n gysylltiedig â'r darpariaethau yn dderbyniol.
37. Gan fod Llywodraeth y DU wedi mynd i'r afael bellach â'n pryderon ynglŷn â Chymalau 149, 144 a 91, rwy'n fodlon i'r cymalau hynny gael eu cynnwys yn y Bil.

Gwneud Hymenoplasti'n Drosedd

38. Mae hymenoplasti, a elwir hefyd yn 'atgyweirio'r hymen', yn ymyriad llawfeddygol i ailgreu'r hymen. Gan amlaf, diben hymenoplasti yw bod menyw'n gwaedu y tro nesaf y bydd yn cael cyfathrach rywiol, er y dylid nodi nad yw hymen sydd heb fod yn gyfan o reidrwydd yn arwydd o weithgarwch rhywiol. Mae hymenoplasti yn fath o Lawdriniaeth Gosmetig ar Organau Cenhedlu Benywod. Nid yw'r GIG yn rhoi'r driniaeth hon fel mater o drefn ac mae'n gyfyngedig i glinigau preifat fel arfer.
39. Mae'r arfer yn cael ei wrthwynebu gan gyrff fel Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr (RCOG), Cymdeithas Gynaecoleg Pediatrig a Glasoed Prydain (BritSPAG), Cymdeithas Wrogynaecoleg Prydain (BSUG), a Chymdeithas Endosgopi Gynaecolegol Prydain (BSGE), sydd wedi galw ar Lywodraeth y DU i gyflwyno gwaharddiad ar brofion gwryfydod (testun gwelliant blaenorol i'r Bil yr ymdriniwyd ag ef ym Memorandwm Rhif 2) a hymenoplasti.
40. Mae'r gwelliannau a gyflwynwyd⁴ yn gwneud hymenoplasti, yn ogystal â chynnig cyflawni hymenoplasti neu helpu ac annog person i gyflawni hymenoplasti, yn drosedd. Y gosb am y drosedd yw:
 - ar gollfarn ddiannod, carchar am gyfnod heb fod yn fwy na'r cyfnod diannod uchaf ar gyfer troseddau neillog, neu ddirwy (neu'r ddau);

⁴ 231H*; 231J*; 231K*; 231L*; 313ZA*; 313ZB*; *; 313ZE*; 313ZJ*; 313ZK*; 313ZM*

- ar gollfarn ar dditiad, carchar am gyfnod heb fod yn fwy na phum mlynedd neu ddirwy (neu'r ddau).

41. Rydym wedi cytuno bod y ddarpariaeth hon yn cael ei hestyn i Gymru ac y bydd yn gymwys yng Nghymru, oherwydd y byddai peidio â gwneud hynny yn golygu y byddai perygl i Gymru gael ei gadael ar ôl ar y mater pwysig hwn. Mae'n Rhaglen Lywodraethu yn ymrwmo i sicrhau mai Cymru yw'r lle mwyaf diogel yn Ewrop i fod yn fenyw; pe na bai'r troseddau hyn yn cael eu hestyn i Gymru, byddai'n golygu na fyddai menywod a merched yng Nghymru yn cael eu diogelu i'r un graddau â'u cymheiriaid yn Lloegr.
42. Mae'r gwelliant o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Y diben sy'n sail i'r gwelliant yw gwarchod a diogelu iechyd a lles menywod a merched. Mae diogelu, iechyd a lles o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
43. Rwy'n cefnogi'r y gwelliant hwn oherwydd ei fod wedi cael ei estyn i Gymru ar gais Llywodraeth Cymru.

Adrodd Gorfodol

44. Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno gwelliannau⁵ sydd, os cânt eu pasio, yn gwneud darpariaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i weithgynhyrchwyr neu gyflenwyr masnachol cynhyrchion gofal iechyd, neu bersonau sy'n gysylltiedig â hynny, gyhoeddi gwybodaeth am daliadau neu fuddion eraill (pa un a ydynt yn rhai ariannol ai peidio) y maent yn eu rhoi i ddarparwyr gofal iechyd, neu ddarparu gwybodaeth o'r fath i'r Ysgrifennydd Gwladol i'w chyhoeddi.
45. Diben y darpariaethau yw sicrhau bod cleifion yn gallu gwirio (neu fod yn dawel eu meddwl) bod penderfyniadau am eu triniaeth yn cael eu gwneud ar sail yr hyn sydd orau iddynt yn glinigol, yn hytrach nag ar yr hyn sy'n broffidiol neu'n fuddiol i'w darparwr gofal iechyd. Bydd gwybodaeth a gesglir ar gael i'r cyhoedd gyda'r nod cyffredinol o wella ymddiriedaeth cleifion mewn darparwyr gofal iechyd.
46. Rwyf o'r farn ei bod yn bwysig bod y polisi o gofnodi gwybodaeth am daliadau neu fuddion eraill yn gymwys ledled y DU.
47. Mae'r gwelliant o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd gan fod y diben yn ymwneud â darparu gofal iechyd sy'n fater wedi'i ddatganoli.
48. Ar ôl trafodaethau gyda'r Llywodraethau Datganoledig, mae Llywodraeth y DU wedi cytuno bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud darpariaeth mewn Rheoliadau a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
49. Os na fydd Gweinidogion Cymru yn rhoi eu cydsyniad, mae'r gwelliant hefyd yn darparu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol, drwy gyfrwng rheoliadau,

⁵ 312B*; 312C*; 312D*, 313C*, 314ZB*

wneud darpariaeth wahanol ar gyfer rhannau gwahanol o'r DU yn y maes hwn, a allai ganiatáu ar gyfer trefniadau i eithrio gweithgynhyrchwyr yng Nghymru rhag adrodd os bydd angen.

50. Rwy'n cefnogi'r gwelliant hwn oherwydd ei fod wedi cael ei estyn i Gymru ar gais Llywodraeth Cymru.

Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y'i diwygiwyd

51. Fel y nodir uchod, rydym wedi dod i gytundeb â Llywodraeth y DU ar y meysydd a oedd yn dal i beri pryder inni, sef Trosglwyddo Swyddogaethau Cyrff Hir Braich a Diwygiadau Canlyniadol i Ddeddfwriaeth y Senedd.

52. Yn ogystal, mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno gwelliannau i'r Bil sy'n cyflwyno darpariaethau i Wneud Hymenoplasti'n Drosedd ac Adrodd Gorfodol ac, ar ôl inni wneud cais i'r perwyl hwnnw, mae wedi estyn y darpariaethau hynny i Gymru. Rwy'n argymhell cydsyniad mewn perthynas â'r ddau ddarpariaeth hyn.

53. Felly, ar yr amod bod y gwelliannau a gyflwynwyd yn cael eu pasio gan Dŷ'r Arglwyddi a bod yr ymrwymiad i wneud Datganiad gerbron y Blwch Dogfennau yn cael ei wireddu, byddaf yn gallu argymhell bod cydsyniad y Senedd yn cael ei roi i'r holl gymalau yn y Bil sy'n ymdrin â meysydd sydd o fewn cymhwysedd datganoledig.

Goblygiadau ariannol

54. Mae'r goblygiadau hyn i'w gweld ym Memorandwm Rhif 2.

Casgliad

55. Rwy'n croesawu'r gwelliannau y mae Llywodraeth y DU wedi'u gwneud i'r Bil er mwyn mynd i'r afael â'r meysydd a oedd dal yn destun pryder i Lywodraeth Cymru. Rwyf hefyd yn croesawu'r gwelliannau ychwanegol ar Wneud Hymenoplasti'n Drosedd ac ar Adrodd Gorfodol sydd, ar ôl inni wneud cais i'r perwyl hwnnw, yn cael eu hestyn i Gymru.

56. Ar yr amod bod Tŷ'r Arglwyddi yn pasio'r gwelliannau a gyflwynwyd, a bod y Datganiad gerbron y Blwch Anfon yn cael ei wneud, gallaf argymhell cydsyniad i'r holl gymalau yn y Bil sy'n ymdrin â meysydd o fewn cymhwysedd datganoledig fel y'i cyfansoddir ar hyn o bryd.

Eluned Morgan AS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

28 Ionawr 2022